**Cofnodion o gyfarfod diweddaru Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 9.30am trwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Iau 4 Ebrill 2024**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
John T Davies, Jack Evershed, Gareth Wynn Davies, Hugh Hesketh-Evans, Mike Humphreys, Prys Morgan, Emlyn Roberts, Caroline Sanger-Davies, Vicki Spencer-Francis

**Trwy Wahoddiad:** Maria Richards, Llywodraeth Cymru

**Y Swyddogion Gweithredol:** Heather Anstey-Myers (Prif Weithredwr Dros-dro)
Julie Davies (Ysgrifenyddiaeth)
Rachael Madeley-Davies (Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol)

1. **Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Nodwyd ymddiheuriadau gan Aelod o'r Bwrdd, Rhys Davies; Gwyn Howells, Prif Weithredwr (ar seibiant salwch o hyd); Gareth Jones, Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol; a Laura Pickup, Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau.

2. **Diweddaraiad o Gynllun Busnes HCC 2022 / 2026 a'r Cynllun Gweithredol 2024 / 2025**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth am ei brydlondeb gyda'r gwaith ychwanegol y bu'n rhaid ei wneud i addasu'r gyllideb a therfynu'r Cynllun Busnes drafft ar gyfer 2022 / 2026 a'r Cynllun Gweithredol 2024 / 2025.

Diolchodd y Prif Weithredwr Dros-dro i'r Bwrdd am ei adborth ac am gymeradwyo'r naill Gynllun a'r llall. Dywedodd fod y dogfennau wedi cael eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru er mwyn i'r Gweinidog eu hystyried.

Mewn perthynas â gweithred o gyfarfod y Bwrdd ar 7 Mawrth 2024, cadarnhawyd bod HCC yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chynnwys a strwythur Cynllun Busnes. Roedd yn galonogol nodi fod cynrychiolydd o Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru wedi datgan yng nghyfarfod Llywodraethiant chwarterol Llywodraeth Cymru / HCC fod Cynllun Busnes HCC yn glir a chryno ac yn un or rhai gorau a welodd gan gorff hyd-braich.

3. **Gweithgareddau a diweddariadau o'r diwydiant**

Rhoddodd y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol y diweddariad a ganlyn:

- Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Roedd y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol wedi cynrychioli HCC yn nigwyddiad Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd i randdeiliaid ar 13 Mawrth 2024. Bu mynychu'r digwyddiad hwn yn werth chweil er mwyn ymgysylltu fwyfwy â rhanddeiliaid allweddol ynghylch argymhellion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

- Map Trywydd y Diwydiant Cig Eidion a Chig Oen

Roedd y gwaith yn parhau gyda'r uchod mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid eraill. Roedd amcanion yn cael eu gosod ar hyn o bryd. Byddai datblygu'r Map Trywydd hwn yn cymryd llawer o amser a byddai'r Bwrdd yn cael ei ddiweddaru am ddatblygiadau.

- Schmallenberg

Nid oedd unrhyw ddata na thystiolaeth ar gael ar gyfer effaith clefyd Schmallenberg ar y ddiadell ŵyna hwyr. Fodd bynnag, roedd lle i gredu bod llai o effaith nag ar y diadelloedd ŵyna cynnar. Byddai HCC yn monitro'r sefyllfa yn ystod y cyfnod ŵyna ac i mewn i'r cyfnod lloia. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos fod y tywydd gwlyb parhaus wedi cael effaith ar yr ŵyn a gafodd eu geni eleni.

- Cynyddu'r Ardoll

Nodwyd bod y gwaith cyfathrebu a gweinyddu gyda'r proseswyr, lladd-dai a marchnadoedd da byw mewn perthynas â'r uchod wedi cael ei wneud gan yr Adran Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

- Statws TAW HCC

Roedd yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn gweithio ar hyn o bryd ar gyfathrebu â'r diwydiant mewn perthynas â'r uchod. Gallai unrhyw ymholiadau a dderbynnir gan y Bwrdd gael eu cyfeirio at yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth pe bai angen.

- Cyfathrebu HCC

Cafodd Anne Dunn ei phenodi'n Arweinydd Cyfathrebu a Materion Allanol.

4. **Diweddariad Cyllid**

Câi diweddariad ariannol yn ogystal â manylion am ladd a'r Ardoll ar gyfer mis Mawrth 2024 ei rannu â'r Bwrdd maes o law.

**Gweithredu: Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol**

5. **Unrhyw fater arall**

Newid Gweinidogion

Nodwyd bod llythyrau o longyfarchiadau gan y Cadeirydd wedi cael eu hanfon at y Prif Weinidog newydd, Vaughan Gething, AoS a hefyd at Huw Irranca-Davies, AoS am gael ei benodi'n Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig.

Yn ogystal, cafodd llythyr o ddiolch ei anfon at Lesley Griffiths, AoS am ei gwasanaethau i'r diwydiant a'i chymorth i HCC yn ystod ei chyfnod yn Weinidog Materion Gwledig.

Cytunwyd y dylai Maria Richards, Llywodraeth Cymru, ymgysylltu â swyddfa Ysgrifennydd y Cabinet er mwyn trefnu cyfarfod i gyflwyno'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr Dros-dro. Hefyd, gwahoddid Ysgrifennydd y Cabinet i ymuno ag un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

6. **<u>Dyddiadau cyfarfodydd i ddod:</u>**

Dydd Iau 2 Mai 2024 – cyfarfod ffurfiol o Fwrdd HCC am 10am
Dydd Iau 6 Mehefin 2024 – Diweddaru Bwrdd HCC drwy gyfrwng Teams – am 9.30am

Parhaodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr Dros-dro ar Teams ar gyfer Eitem 7.

7. **<u>Dilynnwyd gan Sesiwn Gaeedig o'r Bwrdd</u>**

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**